

papur



priordy

**Air disglair Duw,
dyro d'olau i Gymru
heddiw....**



**Dyfyniad o Emyn 228 – Caneuon Ffydd o waith
Graham Kendrick Cyf. Casi Jones**

*Dewiswyd gan Selina Bodycombe Jones
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 329
PAPUR IONAWR 2020**

Gair gan ein Gweinidog

Wel, wel, wel!

AR 14 Medi 1994, cefais fy ordeinio a'm sefydlu yn weinidog yng Nghapel Y Tabernacl, Y Barri. Dyma gychwyn ar antur fawr yn fy hanes. Treuliais wyth mlynedd hapus iawn yn gweinidogaethu yn Y Barri, tan i mi gael fy arwain i lawr i'r gorllewin ar wahoddiad caredig yr ofalaeth hon yn 2002.



Llwyddwyd i sicrhau olyniaeth i'r weinidogaeth yn Y Barri wedi i mi adael, ac erbyn hyn, mae'r Parchedig Kevin Davies yn weinidog cydwybodol a gweithgar ar Y Tabernacl, Y Barri ynghyd â Bethel, Penarth.

Gyda chwymp sylweddol yn yr aelodaeth, sy'n batrwm rhy gyfarwydd mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, penderfynodd aelodau'r Tabernacl fod y baich o gynnal adeilad mawr yn ormod iddynt, ac ar fore Sul olaf 2019, cynhaliwyd yr oedfa olaf yn y capel. Braint i mi oedd cymryd rhan yn yr oedfa.

Ond er taw cau drws y capel am y tro olaf yw hi yn hanes y Tabernacl, mae'r Achos yn parhau, gan i'r gynulleidfa wneud y penderfyniad doeth i symud o'r Capel a chyfarfod i addoli yn y Neuadd Gymunedol leol. Penderfyniad doeth a mentrus.



O edrych o amgylch y Capel am y tro olaf o bosib, cefais f'atgoffa unwaith eto y gall y Tabernacl Y Barri ymfrostio'n dawel bod ganddynt un o'r pulpudau mwyaf prydferth sy'n bod. Mae arni gerfiadau cywrain o ffrwythau amrywiol a grawnwin yn ei harddu. Pan fyddem yn arwain priodas yno, a'r gwas priodas yn eistedd yn nerfus o'm mlaen yn y sedd fawr yn disgwyl ei ddarpar wraig, byddem yn dweud wrtho '*cowntwch y grêps ac erbyn i chi gwpla, fe fydd hi wedi cyrraedd!*'

Roedd rhai o ddisgynyddion teulu'r crefftwr a gerfiodd y pulpud yn yr oedfa olaf ar 29 Rhagfyr 2019. Soniais wrthynt fy mod, yn ystod blynyddoedd cyntaf fy ngweinidogaeth wedi gwneud ychydig o waith ymchwil i hanes y pulpud ac wedi ysgrifennu erthygl yn *Y Ddolen* (sef papur misol Y Tabernacl Y Barri) ac y byddwn yn chwilio amdani ar eu cyfer. Llwyddais i gael gafael ar yr erthygl, ei hailddarllen, a chael tipyn o syndod. Dyma'r erthygl, a ysgrifennwyd gennyf yn rhifyn Mawrth 1997 o'r *Ddolen*. Ydy ambell le'n canu cloch i chi?

"Yn y llyfryn Braslun o Hanes Eglwysi Y Barri a'r Fro a gyhoeddwyd ar achlysur croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i'r dref ym 1968 dywedir am Y Tabernacl 'y mae i'r Capel pulpud nag oes ei ragorach yn y wlad...'

Un o'r Diaconiaid a'i gwnaeth gyda'i law ei hun. Ei enw oedd John Phillips a rhoddwyd y pulpud ganddo yn anrheg i'r Eglwys yn y flwyddyn 1914.

Bûm yn holi'r genhades, Miss Joan Phillips, Caerdydd, un o blant yr Eglwys ac wyres i John Phillips am hanes y pulpud.

Symudodd John Phillips a'i briod o ardal amaethyddol Sir Gaerfyrddin i'r Barri cyn troad y ganrif. Magwyd y ddau ohonynt ar ffermydd - John Phillips ar fferm Plasparcau, Meidrim a'i briod ar fferm Cwmau Uchaf, nid nepell o Gapel Cana.

Ymhen dim amser, aeth y ddau i weithio i'r llaethdy ar Fferm Holton, Y Barri. Er i John Phillips wneud bywoliaeth drwy werthu llaeth eto, treuliodd ei holl amser rhydd yn cerfio pren. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw na fwrdd ei brentisiaeth fel saer coed. Yn wir, ni chafodd yr un wers ar sut i drin na cherfio pren. Credai'n gryf mai rhodd oddi wrth Dduw oedd ei ddawn ac felly, tasg lawen iawn iddo oedd cerfio'r pulpud i'r Capel.

Defnyddiodd John Phillips bren o hen fythynod yn Sir Gaerfyrddin i wneud ei waith - ambell ddarn yn 200 i 300 mlwydd oed. Bu'n casglu hen bren ers blynyddoedd a'i storio yn nho'r fferm.

John Phillips a gerfiodd y gadair sydd ym mhulpud Y Tabernacl, Y Barri hefyd. Gwnaed y gadair yn wreiddiol ar gyfer Eisteddfod y Barri ac fe'i prynwyd gan Mrs Price, yr ofalwraig ar y pryd, a chyflwynodd y gadair yn rhodd i'r Eglwys. Gwelir y geiriau *Deddf Duw sydd yn ei galon Ef* wedi'u cerfio ar y gadair hon - geiriau pwrpasol iawn i sedd lle eisteddai'r pregethwr yn y pulpud.

Gwasanaethodd John Phillips fel diacon o 1916 hyd ei farw ar 4 Orffennaf 1924. Bu farw'n 55 oed, ond erys ei waith yn atgof o'i gariad at ei gapel a'i Arglwydd'.

Nawrte - pwy feddyliai ar y pryd y byddwn yn weinidog, 22 mlynedd yn ddiweddarach, ar yn yr union eglwys yr oeddwn wedi ysgrifennu amdani yn yr erthygl hon, sef Cana

Ac fel pe bai hynny ddim yn ddigon, mae teuluoedd Cwmau a Phlasparcau'n aelodau yng Nghana heddiw. Dim ond enwau oedd y llefydd hyn i mi ym 1997.

Rhyfedd o fyd.

DYMUNWN fendith Duw ar y bennod newydd sy'n agor yn hanes Y Tabernacl, Y Barri. Maent yn esiampl i sawl ardal arall yn eu mentergarwch.

Gweddiwn

Arglwydd,
dal ein bywyd ni yn dy fywyd di.
Tywys ni yn dy ffordd,
nid yn ôl ein chwantau ni ond yn ôl dy ewyllys di,
nid yn ôl ein gwendid ni ond yn ôl dy gryfer di.
Boed i'r bererindod gyrraedd ei nod
yn dy bresenoldeb, er dy ogoniant.

Amen

Mil a Mwy o Weddiau, Edwin C Lewis



DARLLENIAU



Mis Ionawr	Darlenniad
Wythnos 1	Luc 2: 15-21
Wythnos 2	Mathew 2: 1-12
Wythnos 3	Luc 3: 15-17, 21-22
Wythnos 4	Ioan 2: 1-11

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

DI-ENW

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

Gwahoddiad gan Gyngor Ysgolion Sul Cymru



Oedfa o Ddiolchgarwch am waith

Gobaith i Gymru a beibl.net

Dydd Sadwrn 29 Chwefror 2020 am 2

Capel Penuel, Caerfyrddin

*Byddwn yn dathlu bod gwefan beibl.net bellach yn 18 oed ac yn lansio
dwy wefan Gristnogol newydd*

Pregethir gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur

Cyflwynir tysteb i Arfon Jones a Gwenda Jenkins, Swyddogion

Gobaith i Gymru

Gwneir casgliad at waith datblygu'r Beibl yng Nghymru

Gwybodaeth bellach: Aled Davies (aled@ysgolsul.com)



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN

CWRDD CHWARTER CANA

DYDD IAU, 12 MAWRTH 2020

Y Gynhadledd am 10.30

Cyfarfod prynhawn am 1.30



Dyddiad a Lleoliad y Cwrdd Chwarter wedi hynny

14 Mai 2020 Capel Nebo, Llanpumsaint

GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN

Prynhawn Gwener – 27 Mawrth 2020 – 2 o'r gloch

gyda'n Gweinidog

Croeso i bawb



GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY

Brenin? Pa Frenin?



Alwen Owen...

Gwasanaeth Nadolig Capel y Priordy 8 Rhagfyr 2019

CRIW hŷn PIP ddechreuodd ein gwasanaeth Nadolig eleni gyda Gareth yn gyntaf yn ein croesawu i'r oedfa ac yn ein cyflwyno i'r garol gyntaf sef '*O deuwlch ffyddloniaid*'. Dilynwyd ef gan Steffan, Elis a Iestyn yn darllen stori'r geni, ac yn olaf tro Rhiannon a Lleucu oedd hi i gyflwyno'r weddi.



Daeth y Parti Bechgyn ymlaen wedyn i ganu'r garol '*Wyt ti'n cofio nos Nadolig*', ac yn dilyn hyn aeth criwiau



PIP â ni ar daith i Gwpan Rygbi'r Byd yn Tokyo eleni. Canmolwyd ymdrech bechgyn Cymru i gyrraedd y rownd gyn-derfynol gan nifer o gefnogwyr brwd (Lucy, Catrin, Gwenan, Elain, Gwenllian H, Carina, Mabli, Gwenllian J, Betsan, Syfi, Siwan, Anest, Erin a Marged), ond braidd yn fflat oedd hwyliu rhai o'r chwaraewyr sef Jonathan Fox Davies (Jac), Alun Wyn Jones

(Jona), Ken Owens (Tomos) a George North (Gwion). Fe fydden nhw wedi dwlu cyrraedd y ffeinal a maeddu'r Saeson, ond roeddent yn falch iawn bod Lloegr wedi colli a taw De Affrica wnaeth ennill Cwpan y Byd!. Er y siom i chwaraewyr Cymru, roeddent yn arwyr i'r cefnogwyr a gwelwyd merched PIP yn canu cân arbennig iddynt ar dôn 'Sosban Fach' –

Mae Cymru i gyd yn eich canmol
Am chwarae mor wrol o hyd, Hoi Hoi!
Am redeg a phasio a thaclo
I ni – chi yw'r gorau yn y byd! Hoi Hoi!

Er gwaetha'r cystadlu, daeth Pencampwriaeth Cwpan Rygbi'r Byd a'r gwledydd at ei gilydd. Ein gobaith yw y bydd y Nadolig hwn hefyd yn dod â phawb yn nes at ei gilydd.



Ar ôl ffarwelio â'r criw allan yn Tokyo, daeth Côr y Priordy's Bach

ymlaen i ganu sawl cân, sef ‘*Sêr y nos yn gwenu*’, ‘*Pwy sy’n dwad dros y bryn*’, ‘*Clychau Santa Clos*’ a ‘*Dewch gyda ni i Fethlehem*’. Roedd hi’n hyfryd gweld plant ifanca’r ysgol Sul yn mwynhau canu’r caneuon Nadoligaidd hyn.

Ymlaen â ni nesa i Balas Herod i glywed cwynion y tri addurnwr (Mac, Ioan a Gwion) a’r morwynion (Gwenan, Anna, Efa, Beca, Miriam, Mali a Lola) bod gormod o waith ganddynt yn paentio ac yn sgrwbio palas Herod, tra oedd e’n eistedd i lawr yn ei lolfa swanc â’i draed lan yn ymlacio. Yna, mae Gwenan yn cyhoeddi na fydd hapusrwydd Herod yn para’n hir gan ei bod wedi clywed yn y farchnad fod brenin newydd wedi’i eni. Roedd hyn yn falchder mawr i’r palas – ‘*Boo, Herod fydd mewn starch wedi geni brenin bach!... Hi Hi!!*’ Yn wir, roedd Herod (Tomos Huw) mewn starch ac mae’n gorchymyn y doethion (Osian, Ethan a Caleb) i fynd ar fyrder i chwilio am y baban newydd sydd wedi’i eni.



Yn dilyn cân gan y Parti Merched sef ‘*Mae’r nos yn ddu*’, cawsom ein tywys i olygfa Mair (Olwen), Joseff (Iestyn) a gŵr y llety (Noa), lle dywedir wrth Mair nad oes lle iddi yn y llety ac y bydd yn rhaid iddynt gysgu yn y beudy. Nid yw Mair yn hoff o’r syniad gan y bydd yna ddrafft yn y beudy meddai, ond mae Joseff yn ateb yn ôl iddi na alla nhw fod yn ffysi o dan yr amgylchiadau. Tra oedd Mair a Joseff yn cael eu tywys i’r beudy, fe aethom nesaf i’r olygfa ar y bryn yng nghwmni’r bugeiliaid a’r angylion. Mae’r bugeiliaid sef (Trystan, Gwilym, Cian, Steffan, Gwern, Ifan a Gwydion) yn brysur yn gofalu am y defaid ond maent yn awchu am gael bod adre wrth y tân gyda cwpaned o de! Yn sydyn, dyma’r angylion yn ymddangos (Luned, Nansi, Lliwen, Mabli, Alys a Cadi) a cyhoedda’r Arch Angel (Elliw) bod newyddion da gyda hi bod baban newydd wedi’i eni. Baban arbennig iawn sy’n mynd i fod yn Frenin. Mae ganddo enw arbennig ac fe fydd y byd i gyd yn siarad amdano. Iesu yw ei enw! Dywed yr angylion wrth y bugeiliaid am fynd ar unwaith i Fethlehem i weld y baban Iesu.

Cyhoeddwyd y garol nesaf gan Syfi sef ‘*I orwedd mewn preseb*’ ac yn amlwg felly death yr olygfa olaf o amgylch y preseb gyda’r doethion (Osian, Ethan a Caleb) a oedd wedi teithio’n bell iawn ar ôl dilyn seren arbennig, yn rhoi anrhegion o aur, thus a myr i’r baban Iesu. Y brenin gorau yn y byd!

DIWEDDWYD y gwasanaeth gyda phob aelod o’r ysgol Sul a PIP

yn canu cân 'Bethlehem', yna diolchodd Beti-Wyn i bawb am eu gwaith caled a chyn ffarwelio ymunodd pawb i ganu'r garol olaf sef 'Clywch lu'r nef'. Cafwyd gwasanaeth llawn mwynhâd eleni eto i ddathlu geni'r baban Iesu.



GAIR O DDIOLCH

Diolch yn fawr iawn i Ian Williams am ei gymorth gyda'r offer sain yn y Gwasanaeth Nadolig. Gwerthfawrogi hyn yn fawr.

HWYL DROS YR WYL CWIS NADOLIG Y PRIORDY

Atebion

- 1. Pont Menai 2 Y Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth 3. Canolfan y Mileniwm, Caerdydd 4. Port Meirion 5 Y Gerddi Botaneg
6. Tyddewi 7. Caernarfon**

**Pob ateb yn gywir gennych, gobeithio!
Diolch i Gareth Gravell am ein herio!**


I'R DYDDIADUR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG



**OEDFA'R LLYWYDD NEWYDD
Y PARCHEDIG BETI-WYN JAMES
BORE SADWRN 27 MEHEFIN 2020 - 11.30 Y BORE
CAPEL NEWYDD, LLANDEILO**

CYTÛN CAERFYRDDIN

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun, 13 Ionawr 2020 am 7 yn Festri Capel y Bedyddwyr Saesneg



GWASDANAETH NADOLIG Y PRIORDY

Brenin? Pa Frenin?



CYDADDOLI DROS YR WYL

Pedwerydd Sul yr Adfent

Yn y bore yng Nghana

Cyn i ni ddechrau'r gwasanaeth cawsom ein swyno wrth eistedd yn y capel a chlywed y crwt Llion yn adrodd mor fyw a ffraeth a dychmygus stori geni'r geifr newydd ar ei fferm! . Ac wedi cynnau'r bedwaredd gannwyll ar Dorch yr Adfent i gofio'r Forwyn Fair dyma ni'n troi at stori ryfeddol arall, stori geni Iesu, Gwaredwr y Byd.



Seiliodd ein Gweinidog y gwasanaeth ar stampiau

crefyddol newydd y Post Brenhinol eleni - chwech ohonynt. Mae'r stampiau hyn, wedi'u dylunio gan y gŵr a'r wraig o fri rhyngwladol Hari a Deept,. Mumbai, India ac yn, yn dilyn stori ryfeddol y Geni..



Roedd y gwasanaeth ar ffurf Carol a Llith a chymerwyd rhan gan aelodau'r Ofalaeth, sef Rachael Garside,,Eleri James, Ann Jones, Adrian Evans, Alun Charles, ac Eirian Thomas, Cafwyd hefyd gyflwyniad ar y sgrîn yn seiliedig ar Un Seren, cân boblogaidd Delwyn Siôn. Roedd Heather Williams wrth yr organ a Marlene Jones yn cyhoeddi. Y Casglyddion oedd Rhun, Gwion a Meilir.

Yn dilyn y gwasanaeth,mwynhawyd paned a briwgacs ac roedd hefyd groeso i'r gwin twym ar fore braidd yn oer a gwlyb. Mynegodd Lyn Jones (Bancyfelin) ddolch i'n Gweinidog am y gwasanaeth hyfryd ac i ferched Cana am y lluniaeth.

Yn yr hwyr ym Mancyfelin

Mae'n siŵr y dylen ni fel Cristnogion fod yn fwy parod i geisio gwahanol ffyrdd o gyrraedd y gymuned leol o bryd i'w gilydd. Un enghraifft o geisio gyrru cenhadaeth y Ffydd yn ei blaen yn lleol y

dyddiau hyn yw menter Capel Bancyfelin yn cynnal rhan gyntaf eu gwasanaeth Nadolig yn y gymuned cyn symud ymlaen i gwblhau'r '**Daith i Fethlehem**' yn y capel.




Mae'n rhyfedd fel y cawn ein bendithio â thywydd ffafriol yn aml ar gyfer yr achlysur hwn – ac nid oedd eleni'n eithriad! Wrth i ni ymgynnull ger y Wenallt yn y pentref ar ddechrau'n taith, roedd rhywun yn synhwyro fod y dyrfa'n fwy nag erioed y tro hwn. Yn ogystal ag aelodau Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin cawsom gwmni aelodau o Gwrdd Dosbarth Myrddin a chyfeillion eraill yr ardal.



Ger y Wenallt, yn ymyl Coeden Nadolig y Pentref, ar Sgwâr y Pentref a heb fod yn bell o Ysbyty Werndale buom yn oedi i glywed darlenniadau a gweddïau a chydganu gwahanol garolau. Parhawyd i wneud hynny yn y capel lle cafwyd hefyd eitem gan blant a ieuenctid yr Ysgol Sul.

Cymerwyd rhan ar y daith gan Rachel Howells, Nia Ward, Gwawr Waters, Gwyneth Griffiths, ac yn y capel gan Gwion Jones, Helen Gibbon (ar ran y Parchedig Nicholas Bee)), Siôn Jones a Hanna Harvey. Roedd y plant a'r bobl ifainc yn cynnwys Ffion Haf Howells, Cai Howells, Grace Thomas, Amelia Thomas, George Thomas, Alfie Morgan Davies ac Enlli Morgan Davies. Llywiwyd y cyfan gan ein Gweinidog. Roedd Angharad Richards wrth yr organ a'r casglyddion oedd Enlli ac Alfi, Amelia a Grace.



flwyddyn,

Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd ymweliad gan Siôn Corn a pharti i'r to iau. Cafodd y gweddill ohonom gyfle i fwynhau cymdeithasu uwchben paned a briwgacs.

Talwyd diolch i bawb a chwaraeodd ran yn y trefniadau a'r paratodau, yn cynnwys y merched yng ngofal y lluniaeth, gan Alun Charles a diolchwyd i'n Gweinidog am ei harweiniad arbennig yn ystod y dydd a thrwy gydol y

BORE'R NADOLIG YN Y PRIORDY

TRYSOR Y CRUD

ROEDD hi'n fore ychydig yn rhewllyd ac oer ond bod hynny'n rhyw helpu i greu awyrgylch Nadoligaidd i'r diwrnod arbennig hwn. Dwysawyd yr awyrgylch hwnnw yng nghynhesrwydd y capel wrth i Elin ddatgan yn hyfryd bennill cyntaf *Draw yn ninas Dafydd Frenin* cyn i'r gynulleidfa ymuno i gydganu gweddill y garol.



Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan ein Gweinidog, yn cynnwys aelodau eglwys i'r cylch a chyfeillion yr ardal. Yna, goleuwyd y gannwyll yng nghanol Torch yr Adfent i gofio am Iesu Grist, Goleuni'r Byd.



Yn ogystal ag Elin, cymerwyd rhan yn ystod y gwasanaeth gan Marek, Sara, Lleucu, Heledd a Siwan, y cyfan ohonynt yn ferched ifainc y Priordy. Roedd Janet Davies wrth yr organ.

Drwy gyfrwng stori afaelgar yn seiliedig ar ddau barsel, y naill yn blaen a'r llall yn lliwgar, llwyddodd ein Gweinidog i argyhoeddi'r plant a'r gweddill ohonom wrth ddatgelu'r rhoddion oedd yddynt mai'r mewnlolion ac nid yr allanolion sy'n cyfrif yng nghyfansoddiad y dyn. A dyma wirionedd mawr stori'r geni'r Nadolig cyntaf hefyd. Onid mewn preseb a stabl llwm y ganwyd Iesu, y trysor mwyaf gwerthfawr a gaed erioed?

Un o nodweddion arbennig y gwasanaeth hwn yw nifer da a chynyddol y teuluoedd sy'n ymbresenoli gan sicrhau fod llawr y capel yn gyfforddus iawn. A gwefr ychwanegol yw cael mwynhau gweld rhai o'r anrhegion a gafodd y plant yn gynharach y bore hwnnw!!



DIOLCH am gael dechrau'r diwrnod pwysig hwn yn sŵn y newyddion da fod, Iesu, mab Duw, wedi dod i'n byd 'yn gwisgo natur dyn' gan gynnig ei hunan yn Waredwr i'r holl genhedloedd..

CYDADDOLI YM MANCYFELIN

Bore Sul 29 Rhagfyr 2019

FEL y gwelwch oddi wrth *Gair ein Gweinidog*, roedd gorchwyl digon anodd gan Beti-Wyn ar fore Sul olaf y flwyddyn, sef



cymryd rhan yng ngwasanaeth olaf Capel y Tabernacl, Sgwâr y Brenin, Y Barri lle dechreuodd yn y Weinidogaeth ym 1994. Roedd yn achlysur digon trist ond bod hefyd newyddion da gan mai'r adeilad yn unig sy'n cau. Bydd yr eglwys yn parhau gyda'r aelodau'n cyfarfod

yng Nghanolfan Mileniwm Sant Ffransis ar ochr arall y dref dros dro. Dymunwn yn dda i'r Gweinidog, Y Parchedig Kevin Davies, a'r aelodau wrth iddyn nhw ddal ati i gynnal fflam yr Efengyl drwy gyfrwng y Gymraeg yn nhref fwyaf Cymru.

Yn absenoldeb ein Gweinidog roedd Gwasanaeth yr Ofalaeth ym Mancyfelin yng ngofal yr aelodau.

Ac wrth i ni dynnu at derfyn blwyddyn roedd y pwyslais ar ddiolch i Dduw am y bendithion a brofwyd yn ystod 2019 ac ar ofyn lldo'n cynnal yn y flwyddyn newydd. Mynegwyd ein dyhead am gymorth i fod yn fwy ffyddlon i Dduw drwy Iesu ac i barhau i ymddiried ynddo, gan wneud y defnydd gorau o'n hamser.



CYMERWYD rhan yn y gwasanaeth gan Joanne Richards, Trefina Jones, Dr Eirian Thomas (Bancyfelin), Marlene Jones (Cana), Dr Huw Michael, Alun Charles (Y Priordy). Roedd Carwen Howells wrth yr organ. Mae'n diolch i Beti-Wyn am baratoi'r gwasanaeth pwrpasol hwn â'i neges amserol ar ein cyfer.

GWASDANAETH NADOLIG Y PRIORDY

Brenin? Pa Frenin?



PLYGAIN 2019

AR NOS SUL, 15 Rhagfyr, 2019 cynhaliwyd Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr ym Mhenuel Caerfyrddin. Mae'r noson hon yn rhan annatod o weithgarwch y Nadolig yn ein tref erbyn hyn a da oedd gweld cynulleidfa gref yn bresennol..



Estynnwyd gair o groeso gan Weinidog Penuel, Y Parchedig Aaron

Treharne a'n haoogodd hefyd i ystyried gwir bwrpas y Nadolig. Gosodwyd naws priodol i'r gwasanaeth o'r dechrau'n deg gan

Sioned Beynon gyda'i datganiad hyfryd o'r hen garol Gymraeg *Ar fore Dydd Nadolig*.



Cafwyd eitemau amrywiol a diddorol ar gân gan Gôr Tonic, Eglwys Crist, Capel Heol Awst, Capel Elim, Bechgyn y Priordy, Capel Penuel, Cor Seingar, Steffan Rhys Williams, Harmoni, Capel y Babell Zion Newydd, Merched y Priordy a Chor Meibion Caerfyrddin ac ar lafar gan Gapel y Tabernacl a'r Ysgol Farddol. Canwyd tair carol gan y gynulleidfa i gyfeiliant. Heather Williams wrth yr organ. Cyhoeddwyd y Fendith Aaron Traharne,

Aeth elw'r noson, £700, at achos teilwng iawn, sef Hafan Glyd, Canolfan Dementia, Caerfyrddin.



CAFWYD gwasanaeth bendithiol iawn ac roedd graen ar gyfraniad pob un a gymerodd ran. Mae'n dyled yn fawr i Gangen Merched y Wawr Caerfyrddin am gynnal y noson a chynnal traddodiad y Plygain yn ein tref.

GAIR O DDIOLCH

Mae'n diolch unwaith eto i Mair Baston a David am baratoi Torch yr Adfent ar ein cyfer. Dymunwn adferiad buan hefyd i Mair sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.



**Cyfle i fwynhau cerddi gan Mererid Hopwood a Tudur Dylan
Jones a ddarllenwyd ganddynt yng
Ngwasanaeth y Plygain**

Drannoeth y Dydd Byrraf

*A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch;
a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.*



Sut bûm i mor esgeulus? Anodd dweud.
Roedd yma, lond fy llygaid, gynne' fach.
Roedd yma'n gwmni cu ymhob ymwneud -
Ni chofia'i na'i ffarwel, na'i ganu'n iach.
Ai cilio wnaeth yn ffrwt heb ddwedyd dim?
Ai llithro'n slei dros garreg drws y cefn?
Ai lleidr ddaeth a'i ddwgyd bant yn chwim?
Ai mynd o'i wirfodd wnaeth – ai dyna'r drefn?
Ond heddiw, wrth i'm calon suddo'n drwm,
Gallaswn daeru'i weld, 'mond cil ei wên,
Synhwyro blaenau'i draed ar lawr y cwm,
Amgyffred sŵn ei gân yn newydd hen;
A dysgais hyn: mae'r golau'n torri'n rhydd,
Dim ond dros dro y collwn ninnau'r dydd.

Mererid Hopwood

Pe bai actorion drama'r Wyl
yn dewis cael etholiad,
pwy tybed fyddai'n dod yn ben
ar awr fawr y canlyniad?
Pwy fyddai'n ennill yn y ras?
dwi'n eich clywed chi yn gofyn,
a sut yn wir bleidleisiai pawb
o'r doethion lawr i'r asyn?
Fe ddeuai'r holl fugeiliaid draw
ar daith dros fryn a phant
a rhoi eu fôt i'r un sy'n dweud
eu bod yn cael cadw'u grant.
Doedd gŵr y llety ddim yn siŵr,



ac felly yn llawn strach,
pa un o'r pleidiau fyddai'n rhoi
i goffrau'r busnesau bach?
Roedd Gabriel wedi teithio'n bell
er gwaetha maint y gost,
heb gofio mai ofer oedd y daith
gan fod ganddo bleidlais bost.
A swnllyd fu'r angylion oll
wrth arwyddo yn gytûn,
sdim rhyfedd ein bod ni'n clywed
llu'r nef yn seinio'n un.

Mae moesau'r doethion am gynnal fôt
yn isel, prin a byr,
maen nhw wastad yn breibio bois y cownt
efo aur a thus a myrr.
Pe bai Herod yn sefyll am uchel swydd
pa dactegau fyddai'n ddewis?
A fyddai hwnnw'n pocedu ffôn
neu'n cuddio yn y ffrijis?
Pe byddai dinas Bethlehem
yn dewis cael etholiad,
pwy tybed fyddai'n dod yn ben
ar awr fawr y canlyniad?
'Pwy haedda gael ein pleidlais?'
ofynnwyd ers amser hir,
ai'r rhai sy'n dweud celwyddau
neu'r Un sy'n dweud y gwir.
Yn etholiad y canrifoedd,
ym mhleidlais fawr pob oes,
wrth ddweud ein dweud, fe wyddom oll
pa Un a gaiff y Groes.

Tudur Dylan Jones

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys <i>Papur Priordy</i>)
--


SUL GOBAITH



CYNHEUWYD Cannwyll Gobaith ar Dorch yr Adfent gan Steffan Jones, un o'n pobl ifainc, ar ddechrau oedfa'r bore ar Sul cyntaf yr Adfent dan ofal ein Gweinidog. A thasg ymarferol arall a ddaeth i ran pob un ohonom yn ystod yr oedfa oedd ceisio helpu i ddod â gobaith i eraill drwy lofnodi cardiau yn enw Amnest Rhyngwladol.

Carfan bwysu annibynnol fyd-eang yw Amnest Rhyngwladol sy'n ymgychu dros ryddhad pob carcharor cydwybod (sef pobl a garcharir neu gam-drinir oherwydd eu credoau gwleidyddol neu grefyddol. Cofiwyd yn arbennig y tro hwn wrth lofnodi'r cardiau am y canlynol:

Yiliyasijiang Reheman a'i wraig Mairinisha Abuduaini. Roedden nhw'n astudio mewn prifysgol yn yr Aifft pan aeth Yiliyasijiang ar goll ym mis Mehefin 2017. Roedd ymysg rhyw 200 o bobl Uyghu a gafodd eu dal gan lywodraeth yr Aifft ar gais awdurdau Tsieina. Roedd Mairinisha'n feichiog ar y pryd. Mae hi'n credu fod ei gŵr ymysg tua miliwn o bobl, Mwslimiaid gan mwyaf, sy'n gaeth mewn gwersylloedd trawsnewid drwy addysg cyfrinachgar yn Tsieina. Dyw'r bobl hyn ddim yn sefyll prawf. Does dim hawl ganddynt ychwaith i herio'r penderfyniad ac mae'n bosibl iddynt gael eu harteithio a'u cam-drin



Gwragedd Dwâd yn y Deyrnas Unedig

Mae gwragedd dwâd yn ei chael hi bron yn amhosibl i geisio diogelwch yn erbyn cam-drin domestig. Mae llawer yn cael eu rhwystro rhag mynediad i gronfeydd cyhoeddus a'u troi i ffwrdd o lochesau achubol. Mae llawer hefyd yn rhy ofnus i ddweud wrth yr heddlu neu wasanaethau eraill am y trais rhag iddynt gael eu cadw a'u hanfon o'r wlad. Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi addo diwygio'r gyfraith ar amddiffyn rhag cam-drin domestig ond mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn methu ag amddiffyn gwragedd dwâd.



BOED i'r personau hyn a phawb arall sy'n dioddef profiadau tebyg fod yn ein gweddïau'r dyddiau hyn. Diolch i Amnest am sbarduno'r meddwl.

ALIED YN DISGLEIRIO YN Y BOWLIO MAT BYR!

Llongyfarchiadau i Aled Edwards ar ennill y fedal efydd ym Mhencampwriaeth Agored Iwerddon ym Melfast ym mis Medi. Roedd 234 o chwaraewyr o ddeg gwlad gwahanol yn cymryd rhan. Bu'n cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Bowlio Mat Byr Ynysoedd Prydain yn Aberdeen ym mis Tachwedd ac ennill y gystadleuaeth Parau gyda Dafydd Howell o Bontargothi. Enillodd hefyd Gystadleuaeth Senglau Sir Gaerfyrddin a chynrychioli'r Sir yn y Rowndiau Terfynol Cenedlaethol yn Llandrindod Wells ym mis Ionawr, a dod yn ail yn y Gystadleuaeth Parau gyda Gethin [ei frawd] a chynrychioli'r Sir yn y Rowndiau Terfynol Cenedlaethol ym mis Mawrth.



‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin
gyda
Betí-Wyn James***

**Boreau Mercher 26 Chwefror, a 4,11,18 Mawrth 2020
11.00 tan 12.00**

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Croeso cynnes iawn i bawb

CANU AR Y SRYD!

Bu Beti-Wyn a chriw bach o'r Priorddy'n clera neu ganu ar y stryd mewn gwahanol rannau o'r dref ar Ddydd Llun 23 Rhagfyr i godi arian i gefnogi Selina, mam Mac yn yr Ysgol Sul, sy'n rhedeg Marathon Llundain dros Gymorth Cristnogol. Codwyd £217!



Ifanc@Priordy

Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Gwasanaeth Nadolig

Diolch bawb am eich gwaith rhagorol yn y Gwasanaeth Nadolig. Prowd iawn ohonoch i gyd. Mae adroddiad llawn am y gwasanaeth gan Alwen mewn man arall yn y papur hwn ynghyd â nifer o luniau.



Sul, Ionawr 12

Oedfa blant a phobl ifanc. Cofiwch ddod! Cawn lot o hwyl!



Sesiwn Goginio!

Sul, Ionawr 26 - Sesiwn Goginio yn y festri gyda Jayne a Mari! Dewch i ddysgu am un o storïau mawr y Beibl drwy goginio! Croeso i'r plant a PIP

	Ysgol Sul a	PIP
Ionawr 5	Oedfa dechrau'r flwyddyn yng ngofal teulu Gwion, Gwenan ac Elliw.	Oedfa dechrau'r flwyddyn yng ngofal teulu Gwion, Gwenan ac Elliw.
Ionawr 12	Cwrdd Plant a phobl ifanc	Cwrdd Plant a phobl ifanc
Ionawr 19	Ysgol Sul	PIP
Ionawr 26	Sesiwn Coginio	Sesiwn Coginio
Chwefror 2	Ysgol Sul	PIP
Chwefror 9	Cwrdd Plant a phobl ifanc	Cwrdd Plant a phobl ifanc

Chwaraeon MIC

Pob lwc i dîmoedd pêl-droed a phêl-rwyd Y Priordy a fydd yn cystadlu yn chwaraeon MIC ar ddydd Sadwrn, Ionawr 18. Go Priordy!

Hwyl am y tro
Beti-Wyn



MWYNHAU YN Y GYMDEITHAS



Y GYMDEITHAS

Nos Lun 2 Rhagfyr 2019

CROESAWODD ein Gweinidog bawb yn gynnes iawn, yn cynnwys Cymdeithas y Tair Eglwys i'r cyfarfod. Cafwyd darlenniad pwrpasol gan Sulwyn Thomas sef *Y Bugeiliaid a'r Angylion* yn Llyfr Luc. Cyfeiriodd ein Gweinidog yn y weddi at gyfnod yr Adfent gan ddiolch am Ŵyl arbennig y Nadolig a bywyd Iesu Grist.



Cyflwynodd Beti-Wyn ein siaradwr gwadd am y noson **Aled**



Scourfield. Mae'n enw cyfarwydd iawn ym myd newyddion a newyddiaduriaeth Cymru. Fe yw gohebydd BBC Cymru dros Orllewin Cymru. Yn enedigol o Gaerdydd, cafodd ei addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Glantaf cyn mynd i Brifysgol Aberystwyth ac ymlaen wedyn i astudio newyddiaduriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n byw bellach ym Mynachlog-ddu gyda Bethan ei wraig a'u plant Elen a Gwenan.

Dechreuodd Aled drwy sôn am ei waith sy'n aml iawn yn gymysgwch rhwng y llon a'r lleddf oherwydd bod gofyn iddo drafod ystod eang iawn o faterion a meysydd. Soniodd am y newidiadau ym myd newyddiadura yn ystod y deunaw mlynedd y bu wrthi ac fel mae'r disgwyliadau wedi cynyddu a dwysáu.

Olrheiniodd ei yrfa gynnar fel cyw newyddiadurwr yng Nghaerdydd gyda Dewi Llwyd a dysgu llawer iawn gan bobl brofiadol a charedig, yn cynnwys **Aled Huw**. Esboniodd fel mae newyddiadurwyr heddiw'n gorfod golygu'u gwaith eu hunain - ar un adeg roedd golygyddion yn cael eu cyflogi i wneud y gwaith hwn!



Soniodd am un o'r storïau cyntaf y bu'n ei dilyn yn ôl yn 2001 adeg y clefyd traed a genau. Cafodd ei anfon i Fannau Brycheiniog a gweld cymaint o ddefaid wedi'u difa a'r diflasdod a achoswyd i'r ffermwyr a'r ardaloedd cyfagos.

Symudodd wedyn i weithio i *Radio Cymru* lle bu'n darllen newyddion a hynny'n golygu codi am 3:30 y bore! Nid syndod felly ei bod yn dipyn o her iddo wneud y gwaith hwn!

Yn fuan wedi hyn symudodd i weithio ar *Taro Naw* ar S4C - cyfres materion cyfoes ymchwiliol - lle roedd gofyn am sgiliau gwahanol. Soniodd am y tro y gwnaeth eitem ar gau Heol y Gwyddau yng Nghaerfyrddin a gorfod chwilio am wybodaeth a phwy well na Peter Hughes Griffiths i roi'r manylion!

Dyma'r cyfnod pan gyfarfu â'i wraig Bethan sy'n feddyg ac yn sgil hyn cododd awydd ynddo i symud i'r Gorllewin gan fod sawl aelod o'r teulu'n dod o'r ardal. A phan ymddeolodd Alun Lenny, un a fu'n gymorth mawr iddo yn ei waith, gwirededwyd y dymuniad hwnnw.

Soniodd am rai o'r storïau y bu'n gweithio arnynt. Fel yr un am

Shambo, y fuwch sanctaidd i'r Hindwiaid yn Skanda Vale, ger Caerfyrddin. Datblygodd yn stori fyd eang pan heintwyd Shambo gan y TB neu'r diciâu. Penderfynwyd difa Shambo ar dir iechyd a diogelwch ond roedd y mynachod yn gwbl yn erbyn hyn gan fod y fuwch yn anifail sanctaidd.

Aethpwyd i'r Uchel Lys ac enillodd y mynachod eu hachos er mawr siom i'r Cyngor Sir. Fodd bynnag, wedi apêl lwyddiannus, eto yn yr Uchel Lys, dyfarnwyd y byddai'n rhaid i Shambo druan gael ei difa. Dychwelyd wedyn i Skanda erbyn 5 y bore i ddilyn yr helynt. Bu protest gref ond ar ddiwedd y dydd aed â Shambo i gwrdd â'i Chrëwr. Roedd rhaid meddwl ac ysgrifennu'n gyflym ar draed er mwyn cael stori gywir a chryno. Pan ddaeth yr amser i ddarlledu, fodd bynnag, diflannodd y adroddiad i rywle a bu'n rhaid siarad o'r frest yn fyw yn y fan a'r lle!



Stori arall oedd yr un am ŵr o Lanymddyfri, **Iori Jones**, a aeth yn gandryll wedi i gwmni loris adeiladu busnes ger ei dŷ heb ganiatâd adeiladu. Bu'n frwydr gyfreithiol ac er mwyn protestio a thynnu sylw at yr anghyfiawnder dringodd Iori i frig adeiladau'r cyngor lleol gan achosi gwerth miloedd ar filoedd o ddifrod. Cafodd ei ddwyn o

flaen ei well ac, er mawr syndod, fe'i cafwyd yn ddieuog – ond bu rhaid iddo wynebu dedfryd wahanol ar adeg arall! Dyma enghraifft o gymeriad sy'n gallu gwneud gwaith newyddiadurwr mor ddiddorol.

Bu hefyd yn ymwneud â storïau llawer tywyllach eu natur. Adroddodd stori John Cooper, gwas ffarm o Aberdaugleddau, a fu'n gyfrifol yn y 1980au am lofruddio'r brawd a'r chwaer Richard a Helen Thomas mewn plasty ger Aberdaugleddau ac yna Peter a Gwenda Dixon ar

arfordir Little Haven ar ddiwrnod olaf eu gwyliau yn Sir Benfro. Bu Cooper hefyd yn gyfrifol am ymosodiadau a bygythiadau eraill yn yr ardal. Roedd yn ddyn treisgar ac annymunol tu hwnt ac er ei fod dan amheuaeth ers amser methwyd â phrofi'i euogrwydd nes i dystiolaeth fforensig arbennig ei gysylltu â'r pedwar llofruddiaeth. Dywedodd Aled mai dyma'r person a gododd yr ofn mwyaf arno pan aeth i ddilyn y stori yn Uchel Lys Abertawe. Fe'i carcharwyd am oes.

Mae tipyn o bwysau ar newyddiadurwyr i ddod o hyd i storïau ymchwiladol ac yn aml rhaid dibynnu ar wybodaeth trigolion lleol. Dyna ddigwyddodd wrth ddilyn stori drôn yn disgyn yng Nghanolfan Milwrol Aberporth. Roedd y dronau *Watchkeeper* yn cael eu profi yn Aberporth, pob un yn werth chwe miliwn o bunnoedd. Cyfaddefodd y Weinyddiaeth Amddiffyn fod pum drôn wedi'u colli, un ohonynt yn agos at Ysgol Gynradd Aberporth. Yn naturiol, roedd yna gryn bryder yn yr ardal oherwydd y perygl a hynny er gwaethaf sicrwydd y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r gwrthwyneb.

Cafwyd stori drist arall am Miriam, merch 21, a gafodd ei lladd gan ddyn yn yfed a gyrru. Cafodd dedfryd y gyrrwr ei thorri'n ddiweddarach. Roedd fidio'r cyfweiliad â rhieni a chwirydd y ferch yn dangos y tristwch, y boen a'r galar ofnadwy a brofai'r teulu. Darn o newyddiaduraeth emosiynol a thrist iawn a oedd yn dangos dewrder y teulu ond yn anodd iawn i'w wylïo. Dilynodd Aled y teulu i Stryd Downing yn Llundain i gyflwyno deiseb yn galw am cosbau llymach am droseddau o'r fath.

Bu Aled yn Fflandrys i goffâu canmlwyddiant y Rhyfel Mawr a chodi Cofeb Draig Goch Mametz i gofio'r Cymry a laddwyd yn y frwydr.



Stori leol arall oedd honno am ŵr ifanc o Lansteffan Tomos (Twm) Stephens, aelod o'r SAS yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu'n rhan o gyrch o'r enw "*Bullbasket*" ac yn un o ddyrnaid o filwyr a gafodd eu gollwng o awyren i geisio atal yr Almaenwyr rhag teithio o dde Ffrainc a chyrraedd Normandy. Gwaith peryglus iawn oedd hwn a lladdwyd Twm. Cafodd Aled siarad â'i nai, John Stephens, yn Normandy ac mae'r Ffrancwyr yn gofalu am ei fedd hyd heddiw. Trwy hap a damwain wrth ymchwilio, daeth Aled ar draws aelod arall o'r SAS yn Llangain a wyddai am hanes Twm!!

NOSON hollol wefreiddiol yn cyffwrdd â'n synhwyrâu wrth i ni glywed am antur newyddiadurwr yn chwilota am stori er mwyn ein goleuo a'n hysbysu ynghylch bywyd yn ei holl amrywiaeth.



NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

CANU ADEG GOLEUO'R GOEDEN AR Y MAES ar Nos Iau 6 Rhagfyr oedd y cais gwreiddiol i blant / ieuenctid yr eglwysi. Yn anffodus oherwydd Morus y gwynt ac Ifan a glaw canwyd yn Theatr Seilo. Roedd saith o Salem yn y côr.



Y GYMDEITHAS

Yng nghyfarfod Tachwedd cafwyd sgwrs ddiddorol ac amserol gan Lowri ap Ifor ar drothwy Sul y Cofio. Atgoffodd Lowri ni am y cyfnod yn dilyn terfyn y Rhyfel Byd cyntaf a'r ymdrech i ffurfio Cynghrair y Cenhedloedd ac yna'r siomiant pan wrthododd yr Unol Daleithiau arwyddo'r cytundeb. Soniodd am ymdrechion merched yn dyheu ac yn gobeithio am weld heddwch. Yn Rhagfyr cafwyd cinio Dolig yng Nghwinllan Pant Du, Penygroes.

CYNHESACHI!

Prynwyd boileri newydd a'r gobaith nawr yw y bydd saint Salem yn cysgu'n gynt wrth wrando ar bregethau'r Gweinidog. Gwnaed ymdrech arbennig gyda chasgliad Diolchgarwch tuag at y gost o £12,000

GWEINYDDU A DATBLYGU BYWYD EGLWYS SALEM

Yn Nhachwedd 2013 sefydlwyd Cynllun y Grwpiau i weithredu am dair blynedd Estynnwyd y cynllun am dair blynedd arall sy'n golygu iddo ddod i ben ddiwedd 2019. Yn 2020 y bwriad yw cychwyn ar gynllun newydd a mentro ar ffordd newydd o weinyddu a threfnu bywyd yr Eglwys. Fel sylfaen i'r cynllun byddwn fel Eglwys yn edrych ar sylfeini bod yn Eglwys fel y gwelwn yn y Testament Newydd sef ADDOLI a DYSGU, GOFALU, GWEDDÎO a CHENHADU.

Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion yn Salem oddi wrth bawb yn y Priordy! A diolch yn fawr iawn i chi am y newyddion diddorol o fis i fis!



GWLEIDYDDION Y DYFODOL!

Ar ddydd yr etholiad cyffredinol cynhaliwyd ffug etholiad yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar faterion yn ymwneud â'r ysgol ei hun.

Cynrychiolwyd Plaid Cymru gan ddau o aelodau Capel y Priordy sef

Iestyn O'Leary (*chwith*) a **Steffan Jones**. Fe

gyflwynodd y ddau areithiau rhagorol gan egluro'r yhyn fyddai Plaid Cymru'n ei wneud ar gyfer gwella sawl agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dyma ganlyniad y bleidlais ymysg y disgyblion:

Plaid Cymru 56%, Ceidwadwyr 28%, Y Blaid Werdd 6%, Llafur 5%, Democratiaid Rhyddfrydol 4%, Plaid Brexit 1%.

Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt ar eu buddugoliaeth swmpus!



DRWS AGORED



FESTRI'R PRIORDY
BORE IAU 27 CHWEFOR 2020

Paned a Sgwrs am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 12 Chwefror 2020 am 7 yn y Festri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

CWRDD BLYNYDDOL DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA
A BLAENORIAID BANCYFELIN

Nos Fercher 11 Mawrth 2020 ym Mancyfelin am 7

AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN

Nadolig 2019



HYBU APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR



TUDALEN BLAEN

Rheswm Selina Bodycombe Jones dros ddewis *Air disglair Duw*....



Daw sawl rheswm i'r meddwl dros ddewis yr emyn hwn - ar wahân i'r ffaith fod yr emyn yn fy atgoffa i o fy nhir cyntaf i Langrannog gyda'r Ysgol Sul, ac wrth gwrs, y ffaith fod y geiriau ar y dudalen flaen i'w gweld yn fwy perthnasol nag erioed i Gymru yn yr hinsawdd wleidyddol sydd ohoni. Y prif reswm dros ddewis yr emyn oedd, 'nôl ym mis Ionawr 2018 fe wnes i'r penderfyniad i ddod â fy mab i'r Ysgol Sul yn y Priordy.

Yn wreiddiol, fe ddechreuon ni fynd i gapel Elim, gan fy mod i wedi mynychu'r ysgol Sul yn Elim pan oeddwn i'n blentyn. Yn anffodus, doedd yr ysgol Sul ddim yn digwydd bob wythnos yno ac roedd yn anodd i ni allu trefnu bod yno gan fod y rhestr o ddyddiadau a gafwyd ganddyn nhw ar gyfer cynnal ysgol Sul yn amhosib i ni. Ond roeddwn i'n teimlo ar y pryd ei fod yn bwysig i fy mab gael mynd i'r ysgol Sul.

Fe chwiliais am gapel arall gydag Ysgol Sul oedd yn cwrdd yn amlach, a gweld bod Ysgol Sul gan y Priordy. Nawr, fel mam sengl, roedd y syniad o gerdded i mewn i gapel ble roedd llawer o bobl Caerfyrddin, rhai roeddwn i'n eu hadnabod a rhai doeddwn i ddim, yn fy mhoeni, ac roeddwn i'n sicr y byddai pobl yn beirniadu fy sefyllfa bersonol.

Mae'n ddigon hawdd i ni ddefnyddio esgusodion er mwyn argyhoeddi'n hunain i beidio â gwneud rhywbeth ac roedd cymryd y cam cyntaf o gerdded i mewn i'r capel yn deimlad anghyfforddus, rhaid dweud. Ar ôl wythnosau o eistedd, neu guddio, yn y cefn dyma ddod i 'nabod criw o bobl sydd nawr yn cael eu hadnabod



fel y *backseat bandits*!

Mae'r emyn hwn yn fy atgoffa o'r tro cyntaf i mi deimlo fy mod i wedi darganfod 'fy nghriw' oherwydd ar ôl i'r band ddechrau chwarae'r rhagarweiniad i'r emyn hwn, '*Air disglair Duw*', un bore

Sul, dyma'r person wrth fy ymyl yn troi ataf a dweud 'Yes!' er mwyn cymeradwyo'r dewis ac yn y foment honno, dyma fi'n sylweddoli pa mor wirion oedd fy mhryderon yn wreiddiol, a bod pawb wedi'n croesawu ni i fod yn rhan o deulu enfawr y Priordy. Er, a bod yn deg, dw i heb glywed yr emyn ers y tro hwnnw - felly, os ydy'r capel yn cymryd *requests*...!


1620

BLWYDDYN FAWR YN HANES Y BEIBL CYMRAEG

Cafodd cyfieithiad Cymraeg cyntaf y Beibl cyfan, yn cynnwys yr Apocryffa, ei gyhoeddi ym 1588. **Yr Esgob William Morgan** (1548-1604), oedd yn gyfrifol am y gwaith hwn.



Efallai bod rhai ohonoch wedi ymweld



â man geni William Morgan, ffermdy Tŷ Mawr Wybrnant, ger Penmachno, yn Nyffryn Conwy yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy, Llanrwst 2019.

Mae'n debyg mai dim ond 24 o gopïau o'r argraffiad gwreiddiol sydd ar ôl ac mae un ohonynt yn cael ei arddangos yn hen gartref William Morgan. At ei gilydd, mae dros 200 o Feiblau mewn gwahanol ieithoedd yno. Mae'n debyg fod perygl i leithder yn yr aer amharu ar y casgliad unigryw hwn. yn enwedig gan fod y rhagolygon yn awgrymu y bydd yn bwrw glaw'n drymach ac yn amlach yn yr ardal yn y dyfodol. O ganlyniad, mae cynllun trydan dŵr bychan 'pico' wedi'i osod yno, system a ddatblygwyd trwy gydweithio â



Phrifysgol Bangor a Choleg y Drindod, Dulyn. Mae'n golygu y bydd modd addasu i newidiadau yn yr hinsawdd yn fwy cynaliadwy gan ddiogelu'r casgliad rhag tamprwydd ac ati.

Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r Beibl dechreuodd William Morgan ar y dasg o ddiwygio'r cyfieithiad ond bu farw 10 Medi 1604 a'i gladdu yn yr Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy *'heb nac arysgrif na chofeb i nodi man ei fedd'*. Ymgwymerodd **Yr Esgob Richard Parry** a'r **Dr John Davies** â'r gwaith diwygio. Y nod oedd cywiro arddull Morgan yn y manau

hynny ble roedd wedi llithro 'oddi wrth burdeb caeth yr iaith lenyddol'.

Cafodd fersiwn ddiwygiedig y Beibl ei gyhoeddi ym **1620, bedair can mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon**, dan enw Richard Parry, Esgob Llanelwy - ond ei frawd-yng-nghyfraith, y Dr John Davies gyflawnodd ran fwyaf y gwaith. Ganed John Davies yn Llanferres yn Nyffryn Clwyd ond treuliodd ran fwyaf ei oes yn rheithor Mallwyd yn Sir Feirionnydd. Fe oedd ysgolhaig mwyaf ei oes. Ychydig o waith cywiro oedd ei angen at Feibl William Morgan mewn gwirionedd a'r hyn a wnaeth John Davies yn bennaf oedd dileu rhai ffurfiau tafodieithol a rhoi gwedd fwy llenyddol a gramadegol gywir ar y cyfan.



Roedd Beibl 1588 yn fawr ac un 1620 yn enfawr!. Fe'u bwriadwyd i'w darllen yn yr eglwysi. Cafodd Beibl 1620 ei ailgyhoeddi mewn diwyg llai ym 1630 - diolch i haelioni dau o Gymry Llundain, sef **Rowland Heylin, henadur y ddinas a Syr Tomos Myddelton, Arglwydd Faer Llundain, 1613**. Beibl i'r bobl oedd hwn a'i enw hyd heddiw yw'r **Beibl Bach**. Dyma'r Beibl cyntaf i gyrraedd cartrefi'r bobl a rhwng 1630 a 1800 cafodd y testun cyfan, neu rannau ohono, ei argraffu 28 o wethiau a bu nifer helaeth o argraffiadau wedyn rhwng 1800 a 1900.

Bu'r Beibl hwn, yn ôl yr hanesydd, y Dr John Davies, *'mor ganolog ym mhrofiad y Cymry â Beibl Luther ym mhrofiad yr Almaenwyr, neu'r Fersiwn Awdurdodedig ym mhrofiad y Saeson.'*

Cyfieithiad diwygiedig 1620 o'r Beibl fu'r cyfieithiad safonol yng Nghymru hyd yr 20fed ganrif. Meddai Gwefan y Llyfrgell Genedlaethol:

Hwn oedd y Beibl y cerddodd Mary Jones i'r Bala i'w brynu. Hwn oedd y Beibl sbardunodd sefydlu Cymdeithas y Beibl yn 1804. Hwn oedd y Beibl aeth i'r Wladfa gyda'r Cymry ymfudodd yno yn 1865. "...dyma'r gyfrol a fu'n sail i lenyddiaeth Gymraeg y cyfnod modern."



Nansi Hayes...

BLWYDDYN NEWYDD.

Ie, un arall eto wedi'i geni ac allwn ni ddim credu i ble diflannodd 2019.

Sut mae dweud enw'r flwyddyn hon tybed?
“*Blwyddyn dau ddeg dau ddeg*”?

Mae'n swnio'n rhyfedd on'd ydyw, ond fyddwn ni ddim yn hir cyn dod yn gyfarwydd ag e, mae'n siŵr. Mae tipyn yn rhwyddach yn Saesneg i ddweud '20 20'!



Peth rhyfedd yw llithriad amser yntê!

Mae llawer o bethau y gallwn ei wneud ag amser, er enghraifft, ei wastraffu, ei ddefnyddio, ei dreulio, ei gadw, ei ennill, ac yn Saesneg, “*play for time*”

Cyfeiriodd Gweinidog Saesneg o'm hadnabyddiaeth un tro at y dywediad “*tomorrow is the day that never comes*”. Faint o weithiau rydym wedi gwneud esgusodion dros beidio â gwneud rhywbeth, ac efallai wedi dweud “*fe'i gwnaf pan fydd gennyf fwy o amser neu 'fwy o arian*”, ac ati.

Ond mae adnod yn y drydedd bennod o Lyfr y Pregethwr yn dweud “*Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef*”.

Dyma addasiad o weddi am amser sef “*Time*” gan **Michel Quoist**:

DYSG NI I GYFRIF EIN DYDDIAU.

Mi es allan, Arglwydd,
Roedd dynion, merched a phlant hefyd yn mynd allan,
Roeddynt yn mynd ac yn dod, yn cerdded ac yn rhedeg.
Roedd popeth yn byrlymu; ceir, bysiau, y dref, yr ysgol.
Pobl yn brysio, rhag gwastraffu amser.
Roeddynt yn brysio ar ôl amser.



Yn ceisio cydreddeg ag amser
I ennill amser.

Hwyl fawr - esgusodwch fi, does gennyf ddim amser.

Ni allaf ddod, dim amser.

Ni allaf aros, dim amser.

Fe hoffwn eich helpu, ond does gennyf ddim amser.

Rwyn boddi dan gymaint o waith, does gennyf ddim amser.

Rwyf ti'n gweld Arglwydd, does ganddon ni ddim amser.

Mae'r plentyn yn chwarae - nid oes ganddo amser...

Hwyrach ymhellach ymlaen.

Mae gan y plentyn ysgol waith cartref, dim amser....

Hwyrach ymhellach ymlaen.

Mae'r eneth ifanc yn hoffi dawnsio, ac mae i'r dyn ifanc ei chwaraeon.....hwyrach ymhellach ymlaen.

Mae i'r dyn ei wraig a'i dŷ newydd - nid oes ganddo amser,..... hwyrach ymhellach ymlaen.

Mae gan y nain a'r taid blant ifanc y teulu i edrych ar eu hŏl - nid oes amser ganddynt.....hwyrach ymhellach ymlaen.

Y maent yn sâl, rhaid brysio i'r ysbyty - nid oes amser.....hwyrach ymhellach ymlaen.

Y maent yn marw, nid oes ganddynt

Rhy hwyr.... Dim amser ar ôl.

Arglwydd, mae gennym amser,

Mae gennym ddigonedd o amser,

Holl flynyddoedd ein bywydau,

Holl ddyddiau ein blynyddoedd,

Holl oriau ein dyddiau.

Helpa ni, O Dduw , yn yr amser yr wyt yn ei roi i ni, i'w ddefnyddio'n ddoeth, fel y bydd yn gyfraniad tuag at adeiladu Dy deyrnas Di, yma ar y ddaear.



Dyddiadur neu Galendr?

A gawsoch ddyddiadur neu galendr 2020 yn anrheg Nadolig? Os do fe, rhwch y dyddiadau hyn i lawr yn syth!

21 Mehefin - Pererindod yr Ofalaeth i Soar y Mynydd

18 Hydref - Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth

Dod i Adnabod Jack Newbould

LLONGYFARCHIADAU mawr i **Jack Newbould** ar ei benodi i olynu Nigel Davies fel Swyddog Plant / Ieuenctid i MIC a Henaduriaeth Myrddin. Mae'n dod yn wreiddiol o Lanbedr wrth ymyl Harlech. Ar ôl gadael Coleg bu'n gweithio ar flwyddyn gap yng Ngholeg Y Bala cyn cael ei apwyntio'n Is Warden y Coleg. Mae'n brofiadol o weithio gyda phlant ac ieuenctid gan drefnu digwyddiadau, arwain cyrsiau ac ymweld ag ysgolion. Fe'i magwyd ar aelwyd Gristnogol ac mae'i ffydd yn chwarae rhan bwysig yn ei fywyd. Mae'n hoff o bob math o chwaraeon ond yn bennaf oll beicio, criced a nofio. Mae hefyd yn ddylunydd a ffotograffydd talentog.



Mae Jack yn edrych ymlaen at y bennod newydd yn ei fywyd wrth iddo symud i Sir Gaerfyrddin gyda gweledigaeth i ddatblygu'r gwaith a chyflwyno rhai syniadau newydd.

Y weithgaredd gyntaf y bydd yn gyfrifol amdani fydd chwaraeon MIC ar 18 Ionawr..

Fel dywed y proffwyd Eiseia: **“Peidiwch hel atgofion am y gorffennol, a dim ond meddwl am beth ddigwyddodd o'r blaen! Edrychwch, dw i'n gwneud rhywbeth newydd! Mae ar fin digwydd!”** (Eiseia 43:18-19).

Codwyd o Lythyr Newyddion a Gweddi MIC. (Rhifyn Y Nadolig)

	CYSTADLEUAETH PÊL-DROED A PHÊL-RWYD MIC Dydd Sadwrn 18 Ionawr 2020 Canolfan Handden Caerfyrddin Pêl-rwyd – bore Pêl-droed – prynhawn <i>Rhagor o fanylion – Beti-Wyn / Luned Voyle</i>	
---	---	---

Eirlys Jones...

GWASANAETH NADOLIG CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

Prynhawn Dydd Gwener – 6 Rhagfyr 2019



PLESER eleni eto oedd cael cefnogi'n Gweinidog yng Nghartref Plas y Dderwen yn yr oedfa Nadolig. Roedd neges Beti-Wyn yn gwyno ac yn amserol yn ôl ei harfer a hyfryd oedd gweld y preswylwyr yn mwynhau.



Soniodd ein Gweinidog am sawl peth sy'n gysylltiedig â'r Nadolig ond pwysleisiodd mai'r delweddau Cristnogol sy'n bwysig i ni. Mae'r

dail bythwyrdd yn arwydd o fywyd tragwyddol. Arwydd o'r goron ddrain yw'r celyn a'r aeron yn ddafnau o waed. Planhigyn heddwch yw'r uchelwydd.

Diolch i Beti-Wyn am ei neges a'i hanogaeth i ni i weddïo'n wastadol a thros yr Ŵyl am heddwch yn y byd.

Diolch i Mai Thomas am ei gwasanaeth fel arfer ar yr organ.



DIOLCH hefyd i'r staff am y croeso arferol.

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



Beth am droi at: cyfundeb.com?



CANOLFAN HEOL AWST EGLWYS Y BEDYDDWYR SAESNEG



<i>Phil Stephenson Cadeirydd</i>	<i>Janet Mock Ysgrifennydd</i>	<i>Dianne Stephenson Trysorydd</i>
---	---	---

Annwyl Ffrindiau

Ar ran Canolfan Galw-i-Mewn Heol Awst hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniad caredig yn y Priorddy at ein Cinio Nadolig.

Mae'n diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch haelioni unwaith eto.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Yn gywir


Dianna Srephenson

Trysorydd

Llythyr a dderbyniodd Adrian Evans, ein Trysorydd, yn ddiweddar

	<i>Casglwyd £210 at y Ganolfan gennym ar Ddydd Sul 1 Rhagfyr 2019.</i> <i>Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.</i>	
--	--	---

CYMANFA GANU FODERN GŴYL DEWI CAPEL BANCYFELIN Nos Sul, 1 Mawrth 2020 Elw at Apêl Sanclêr, Bancyfelin a Llangynnin Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2021 <i>Mwy o fanylion i ddod Nodwch y dyddiad.</i>	
--	--



COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R BLWCH TOPIAU POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD

CASGLU STAMPIAU

Mae darllen hysbyseb ym Mhapur Priordy wedi sbarduno Teulu Tryfal yn Ffestiniog yng Ngwynedd i gasglu stampiau i'w cyflwyno i hybu achos da. Mae'r Papur yn dod i'w rhan drwy **Gwynn Bowyer**. Ardderchog yn wir a thybed a oes rhagor o deuluoedd y tu allan l'r Priordy sy'n derbyn y Papur yn mynd ati yn yr un modd?



GAIR DUW AR WAITH Denzil John

Casgliad o fyfyrnodau Beibliadd gyda phwyslais arbennig ar wneud ein ffydd yn weithredol ac yn ymarferol. Ceir anogaeth i gefnogi elusennau a mudiadau dyngarol i wella cyflwr ein byd heddiw.

Cyhoeddiadau'r Gair
£6.99



CWIS RHAGFYR

Atebion

1. Rhawiau
2. Rhyfyg
3. Rhincian
4. Rhesin
5. Rhiniog





DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Ionawr		Chwefror	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Alun Charles	Adrian Evans	Gwynfor Davies	Philip Jones



BLODAU



Ionawr	5	Glenys Thomas	Chwefror	2	Alwen Owen
	12			9	
	19	Hilary Kynaston		16	Myfanwy Jones
	26			23	

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Ionawr	5	Bore	Alison Parsons a Ffion Parsons
Chwefror	2	Bore	Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones



YMWELWYR



Ionawr / Chwefror	Janet Davies a Gloria Evans
-------------------	-----------------------------



DARLLENWYR



Ionawr	5	Huw a Mwynwen Jones	Chwefror	2	Elen Marks
	12			9	
	19	Catrin H Jones		16	Gill Owens
	26	Miriam Wyrwoll		23	Huw Michael



CYHOEDDWYR



Ionawr	Adrian Evans	Chwefror	Wyn Tegryn Evans
--------	--------------	----------	------------------

CYDYMDEIMLAD

Daeth profedigaeth i ran Huw a Jill Edwards a'r meibion Gethin ac Aled, yn ddiweddar pan fu farw Olwen Griffiths, Llandybïe, modryb Jill. Roedd hi'n 102 oed, yn chwaer i'r diweddar Elwyn Thomas, tad Jill, a'r olaf o ddeunaw o blant. Mynegwn ein cydymdeimlad â'r teulu cyfan yn eu colled.

Rydym yn cydymdeimo â Luned (Voyle) ac Owen Thomas ar golli tad Owen a thad yng nghyfraith Luned a thad-cu Mared, Catrin a Gruffudd, sef Glyndwr Thomas, Upland Arms, Cwmffrwd, ar 30 Tachwedd 2019. Meddyliwn am ei weddw, Rhiannon, a'r teulu cyfan ar yr adeg hwn.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r brodyr Dan a Harry Evans ar golli'u chwaer yng nghyfraith, Doreen Evans, Sanclêr, ar 2 Rhagfyr 2019. Meddyliwn am ei i gŵr, Ben Evans a'r plant a'r wyrion a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.

Drwg gennym glywed bod Rhidian a Caroline Jones wedi colli mam Caroline a mam-gu'r plant, Daniel Thomas a Rhys Morgan, sef Patricia Barber, Basingstoke, ar 13 Rhagfyr 2019. Meddyliwn am y teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Heather Williams a Wyn Evans ar golli llysfam Heather, sef Eirys Williams, Llangwm (gynt o Glunderwen) ar 18 Rhagfyr 2019. Mae'n meddyliau gyda'r teulu cyfan ar yr adeg trist hwn.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Tim Hayes a Selina Bodycombe Jones am y lluniau'r mis hwn.



Western Mail - Newyddion ? Journal – Newyddion ?

Y TYST – NEWYDDION DA!!!

50c y rhifyn!

Cysyllter â Sulwyn Thomas



GOBEITHIO i chi fwynhau'r Nadolig ac y cewch Flwyddyn Newydd Dda.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth ,sef Rita Brown, Ann Griffiths, Mair Baston, Eleri Thomas, David Lloyd a Victor Jones. Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Mae Huw Morgan wedi symud o Gartref Cynnes i Gartref Erw Hir. Anfonwn ein cofion ato gan obeithio y bydd yn ddedwydd ar ei aelwyd newydd. Ein dymuniadau da hefyd i Ifor Evans sydd newydd symud i'w gartref newydd yn Nhŷ Rhys, Y Parêd. Pob hapusrwydd iddo yno.

Lansiwyd hunangofiant Alun Lenny, **Byw Ffwl Pelt**, yng Nghlwb y Cwins ddiwedd Tachwedd pan gafodd yr awdur ei holi gan Elinor Wyn Reynolds. Mae'r llyfr yn dilyn hynt a helynt ei yrfa fel newyddiadurwr yn ystod newidiadau enfawr yn ein hanes ni fel cenedl.

Bu Elinor yn cymryd rhan yn **Noswaith Torri Tir**, sef noson o farddoni a diddanwch, yn y Coffi Lounge ym Mhorth Tywyn yng nghwmni. Aneirin Karadog a Matthew Tucker gyda loan Hefin fel gwestai arbennig. Ymddangosodd ar **Heno Nos Galan** ar **S4C** lle bu'n trafod Geiriau Newydd 2019 ac yn dyfalu beth fyddai Geiriau Newydd 2020! Ys gwn i fydd hi'n iawn? Ac yn **Golwg** cafodd Elinor wahoddiad i drafod steil a'r hyn mae'n ei olygu iddi. Cawn wybod am y dillad a'r esgidiau a'r bagiau, y gwallt a'r colur a'r gemwaith mae'n eu hoffi. Bu steil yn ffordd o hyrwyddo'i llyfr newydd **Gwirionedd** gan iddi wisgo blows ar gyfer y lansio yn matsho clawr y gyfrol a'r papur wal yn y tŷ lle cafodd ei chodi.



Ar Sul cyntaf yr Adfent, daeth **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** ar **S4C** o Eglwys San Pedr Caerfyrddin a gwelwyd nifer o'r Priordy yn y gynulleidfa ac yng Nghôr Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Bu cyfweiliad ag Elinor Wyn ynghylch y llyfr '**Caru Ti' Duw**. Elinor addasodd y testun, a ysgrifennwyd gan Vicky Howe, o'r Saesneg i'r Gymraeg. 'Yr her oedd gwneud iddo swnio fel testun Cymraeg gwreiddiol', meddai Elinor'. Mwynheuodd ysgrifennu am yr Hen Blaned Gron a stori'r Geni.

Bu'r Dr Catrin Haf Williams ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** yn trafod cyfrol ddiweddaraf y diwinydd uchel ei barch Jürgen Moltmann, sef **Hope in These**

Troubled Times. Bu Beti-Wyn ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** yn sôn am rai o draddodiadau a symbolau'r Nadolig. Ac ar noson yr Etholiad Cyffredinol, bu cyfweiliad yn Yr Egin ar **S4C** gydag Emlyn Schiavone a fu'n mynegi barn am y digwyddiadau.

Roedd Elin Llwyd yn un o feirniaid y gystadleuaeth **Carol yr Ŵyl** ar **S4C** ac Ysgol Gynradd yr Hendy aeth â hi'r tro hwn. Bu hefyd yn cyflwyno **Dathliadau Nadolig Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC** ar **Radio Wales** ar Ŵyl San Steffan.

Llongyfarchiadau i Gwenan Fflur Jones sydd newydd gael ei dewis i ymuno â Charfan Gymnasteg NDP Cymru. Bydd sawl taith o'i blaen i Birmingham yn y flwyddyn newydd. Cafodd lwyddiant diweddar hefyd yn cystadlu gyda Gymnasteg yr Urdd. Daeth hi ac Anna (hefyd o'r Priordy) yn gyntaf mewn deuawd, cyntaf fel grŵp ac Anna'n gyntaf yn unigol yn ogystal.



Llongyfarchiadau i Emlyn a Tina Schiavone ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganed Nico, mab bach i Ceri a Bev a brawd bach i Max Luca ar 18 Rhagfyr 2019. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

AC I GLOI, llongyfarchiadau mawr hefyd i Gwilym a Myfanwy Jones ar ddatlu'u priodas ddeiamwnt ar 5 Rhagfyr 2019. Dymuniadau da i chi oddi wrth bawb yn y Priordy!



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i'n Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Alun Charles ☎ 01267 236037

TIM HAYES AR EI NEWYDD WEDD?



**Ond arhoswch funud!
Na! Codi ymwybyddiaeth am
iechyd corfforol dynion e.e.
cancr prostad a cancr y ceilliau,
a iechyd meddwl y bu Tim.
Felly, nid ffasiwn!!!**



Y SULLADUR



Ionawr	5	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd yr Ofalaeth gyda Huw a Mwynwen Jones a'r teulu. Derbyn Diaconiaid Newydd Ein Gweinidog	Cymun
	12	<i>Bore</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog.	
	19	<i>Bore</i> <i>Pnawn</i> <i>Hwyr</i>	Oedfa yng ngofal yr Aelodau Oedfa i'r Ofalaeth am 2 ym Mancyfelin yng ngofal yr Aelodau Oedfa dan nawdd Cytûn yn y Capel Wesle am 5.00 ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol gyda'r Parchedig Ddr Matthew Hill, Offeiriad â Gofal Bywoliaeth Eglwysi Sant Pedr, Caerfyrddin, Abergwili a Chapel y Groes, yn pregethu. (Pregeth Gymraeg)	
	26	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	

Chwefror	2	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	9	<i>Bore</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog	
	16	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	23	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Y Parchedig Owain Llŷr Evans Cwrdd yr Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Owain Llŷr Evans	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC							
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant							
Ionawr				Chwefror			
5	12	19	26	2	9	16	23
-	CP	✓ PIP	✓ PIP	✓ PIP	CP	-	✓

Y GYMDEITHAS Nos Iau 6 Chwefror 2020 - 7.00 Yn ymuno â Chymdeithas y Tair Eglwys yn y Tabernacl Huw Griffiths Y Ddaear, y Gofod a'r Amgylchedd
